Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 30 Mai 2017 |
| Ein cyf: | HVT/2721/fgb |
| Tudalen: | 1 o 2 |

Annwyl Nick

## ARLWYAETH YSBYTAI A MAETHIAD CLEIFION

Yn dilyn y cais drwy'r e-bost gan Ddirprwy Glerc y Pwyllgor ar yr 11^eg^ o Fai 2017, ysgrifennaf i roi cyngor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad diweddar y Pwyllgor ar Arlwyaeth Ysbytai a Maethiad Cleifion.

Mae'n dda gennyf weld bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn llawn y deg argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor. Ar y cyfan, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn un rhesymol, er y gallai manylion a therfynau amser y camau gweithredu, mewn nifer o fannau, fod yn gliriach. Rwyf yn gwneud rhai sylwadau penodol ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru isod.

**Argymhelliad 1**: Nid yw'n glir a yw'r eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer adborth cleifion ynghylch prydau bwyd yn berthnasol i Grŵp Monitro a Gwerthuso Strategol Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan ynteu i'r cyfarfod blynyddol ar y cyd gyda'r Grŵp Maethiad ac Arlwyo.

**Argymhelliad 3**: Mae'r ymateb yn awgrymu bod y ddogfennaeth nyrsio bresennol yn cynnwys cwestiynau asesu addas, er bod fy Memorandwm i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at y bylchau sy'n parhau yn y wybodaeth a gesglir fel rhan o broses sgrinio maethiad, tra nad yw'r holl ddogfennaeth asesu yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer y math o wybodaeth a argymhellwyd gan y Pwyllgor. Oherwydd hyn, efallai na fydd ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd y caiff argymhelliad y Pwyllgor ei weithredu'n llawn.

**Argymhelliad 4:** Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn dweud y cynhelir digwyddiad i randdeiliaid ar y 19^eg^ o Fai 2017 ond ni roddwyd gwybodaeth ynglŷn â'i bwrpas.

Llinell uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@audit.wales

**Argymhelliad 5**: Er gwaethaf y ffaith fod menter “WIDI” yn ymddangos yn arloesol, nid yw ymateb Llywodraeth Cymru yn mynd i’r afael â phrif bwynt argymhelliad y Pwyllgor sef adolygu trefniadau cynllunio’r gweithlu o fewn NWIS.

**Argymhelliad 6:** Mae bwriad Llywodraeth Cymru i weithio gyda byrddau iechyd i edrych i mewn i hyfforddiant gorfodol ar gyfer maethiad i’w groesawu. Fodd bynnag, nid oes terfynau amser wedi eu pennu ar gyfer ymgymryd â’r gwaith hwn a’i gwblhau.

**Argymhelliad 9:** Mae’n ymddangos mai ychydig, os dim, cynnydd a wnaed ar y mater hwn ers yr ymchwiliad hydref diwethaf. O gofio bod y Pwyllgor wedi gofyn i Lywodraeth Cymru roi’r flaenoriaeth uchaf i’r mater, bydd hyn yn destun pryder.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o gymorth, a byddwn yn hapus i ymhelaethu ymhellach ar unrhyw un o’r pwyntiau uchod pan fydd y Pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru ar y $5^{ed}$ o Fehefin.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**